



Diwrnod Cofio'r Holocaust

*Dysgu gwersi o'r gorffennol er mwyn
creu dyfodol gwell a mwy diogel*

'Wnes i addo peidio â
chadw'n dawel pan fydd
dynion yn dioddef poen
a chywilydd. Rhaid
ochri gyda rhywun. Mae
niwtraliaeth yn helpu'r
gorchfygwyr, nid y dioddefwyr.
Mae tawelwch yn annog
y poenydiwyr, nid y rhai a
boenydir.'

Elie Wiesel, goroeswr yr Holocaust



Mae 27 Ionawr yn rhoi cyfle i bawb ddysgu'r gwersi o'r Holocaust, Erledigaeth y Naziïaid a'r hil-laddiad dilynol yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur i'w defnyddio heddiw er mwyn creu dyfodol gwell sy'n fwy diogel. Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust (DCH) rydym yn rhannu'r atgof o'r miliynau a lofruddiwyd yn erchyllterau'r gorffennol er mwyn herio casineb ac erledigaeth yn y DU heddiw.

Ar DCH byddwch yn ymuno â miliynau o bobl eraill ledled y byd sy'n dod ynghyd i aros, cofio a myfyrio ar yr hyn sydd angen i ni ei wneud i greu dyfodol heb beryglon gwahaniaethu.

I ganfod mwy am Ddiwrnod Cofio'r Holocaust a sut y gallwch gymryd rhan, ewch i **hmd.org.uk**

Nid yw hil-laddiad yn digwydd dros nos, mae'n broses raddol sy'n gallu dechrau'r funud y daw parch i ben. Mae'n annirnadwy i ni y gallai hil-laddiad ddigwydd yma yn y DU, ond os na fyddwn yn wylidwrus, gall y gweithredoedd bach o gasineb sy'n digwydd bob dydd dyfu'n rhywbeth bygythiol.

Ar DCH gallwch ddefnyddio profiadau'r rhai a erlidiwyd yn yr Holocaust, Erledigaeth y Naziïd a hil-laddiad dilynol i ddysgu sut y gall galw enwau droi'n llofruddiaeth fwriadus o filiynau o bobl yn y pen draw.

Mae gan bawb gyfrifoldeb sicrhau mai gwir ystyr 'Byth Eto' yw Byth Eto.

Sut mae hil-laddiad yn digwydd?

Cam 8 Gwadiad	Mae'r cyflawnwyr neu genedlaethau diweddarach yn gwadu bodolaeth unrhyw drosedd.
Cam 7 Difodiad	Mae'r grŵp casineb yn llofruddio eu dioddefwyr dynodedig mewn ymgyrch fwriadol a systematig o drais. Dinistriwyd neu newidiwyd miliynau o fywydau y tu hwnt i adnabyddiaeth trwy hil-laddiad.
Cam 6 Paratoi	Adnabyddir dioddefwyr ar sail eu gwahaniaethau. Ar ddechrau'r hil-laddiad yn Cambodia, gwahanodd y Khmer Rouge y bobl oedd yn byw mewn dinasoedd nad oeddynt yn gweithio yn y caeau. Gorfododd y Naziad Iddewon yn Ewrop i fyw mewn getoau.
Cam 5 Polareiddio	Mae grwpiau casineb yn dechrau lledaenu propaganda. Defnyddiodd y Naziad y papur newydd <i>Der Stürmer</i> i ledaenu ac achosi negeseuon o gasineb am bobl Iddewig.
Cam 4 Trefnu	Caiff hil-laddiad ei drefnu bob amser. Yn aml mae cyfundrefnau casineb yn hyfforddi'r rhai fydd yn dinistrio'r bobl.
Cam 3 Dad-ddynoli	Caiff y rhai a ganfyddir i fod yn 'wahanol' eu trin heb unrhyw fath o hawl dynol nac urddas personol. Yn ystod Hil-laddiad Rwanda cyfeiriwyd at y Twtsis fel 'chwilod du'; cyfeiriodd y Naziad at yr Iddewon fel 'gwehilion'.
Cam 2 Symboleiddio	Mae hyn yn amlygiad gweledol o gasineb. Gorfodwyd Iddewon oedd yn byw yn Ewrop o dan reolaeth y Naziad i wisgo sêr melyn i ddangos eu bod yn 'wahanol'.
Cam 1 Dosbarthu	Ni cheir gwahaniaethau rhwng pobl eu parchu. Ceir gwahaniad o 'ni' a 'nhw'. Gellir gwneud hyn trwy'r defnydd o stereoteip, neu trwy wahardd pobl y canfyddir i fod yn wahanol.



Yr Holocaust 1933 – 1945

‘Yn wirioneddol, roedd Auschwitz yn ffatri ar gyfer lladd, a defnyddiwyd dynion fel tanwydd. Wnes i oroesi ac addo i mi fy hun y byddwn yn dweud wrth y byd am yr hyn ddigwyddodd.’

Lily Ebert, goroeswr yr Holocaust

Ceisiodd y Naziïaid ddinistrio holl Iddewon Ewrop yn eu hymgyrch o gasineb systematig a gefnogwyd gan y wladwriaeth a elwir yr Holocaust erbyn hyn.

Cyn gynted ag y daethant i bŵer dechreuodd y Naziïaid adeiladu ar y blynyddoedd o wrth-Semitiaeth trwy lunio deddfwriaeth a fyddai'n raddol yn tynnu unrhyw hawliau dinasyddiaeth oddi ar Iddewon. Yn y pen draw cafodd yr Iddewon eu casglu ynghyd a'u gorfodi i fyw mewn getoau gorlawn ledled Ewrop. Fel rhan o'r 'Ateb Terfynol', diddymwyd y getoau ac anfonwyd yr Iddewon i wersylloedd crynhoi megis Auschwitz-Birkenau. Yn y canolfannau lladd anfonwyd y rhai a ystyriwyd yn rhy hen neu'n rhy wan i weithio – gan gynnwys merched a phlant – yn syth i'r siambrau nwy. Aeth y rhai a ystyriwyd yn ddigon cryf i weithio o dan amodau eithafol. Bu farw chwe miliwn o ddynion, merched a phlant o ganlyniad i esgeulustra, newyn a chamdriniaeth yn y getoau a'r gwersylloedd. Heddiw mae goroeswyr yn dweud eu hanesion er mwyn sicrhau na fydd hyn byth yn digwydd eto.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/genocides/the-holocaust

Grundfarben



Abzeichen für Rückfällige



Strafkomp



Juden



© Arnold-Liebster-Stiftung

© USHMM

Erledigaeth y Naziaid 1933 - 1945

‘Yn yr ysgol roedd mwy a mwy o bwysau arnaf i ddweud ‘Heil Hitler’. Ond gwrthodais oherwydd, yn fy nghalon, allwn i byth barchu dyn yn y ffordd hyn fel pe tai’n dduw allai achub pobl. Cefais fy arestio’n 12 oed.’

Simone Arnold, Tyst Jehovah a goroeswr Erledigaeth y Naziaid

Roedd y Naziïaid yn casáu unrhyw un nad oedd yn cyd-fynd â'u syniad cul o bwy neu beth oedd yn 'normal'. O'r foment y daethant i bŵer sefydlwyd deddfwriaeth a pholisïau ganddynt oedd yn ceisio dileu gwahaniaeth ac eithrio'r sawl *Untermenschen* – is-ddynol, yn eu barn hwy.

Ymhlith y rhai a erlidiwyd, eithriwyd, carcharwyd neu a lofruddiwyd roedd y Roma a'r Sinti (Sipsiwn), Hoywon a Lesbiaid, Tystion Jehofa, Undebwyr Llafur, y Seiri Rhyddion, Pobl dduon, pobl ag anabledd meddyliol neu gorfforol, gwrthwynebwyr gwleidyddol a Phwyliaid a Slafiaid nad oedd yn Iddewon. Collodd miliynau eu bywydau neu newidiwyd eu bywydau y tu hwnt i adnabyddiaeth o dan Erledigaeth y Naziïaid ac ni chafodd llawer o grwpiau gydnabyddiaeth o'u dioddefaint am lawer iawn o flynyddoedd.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/genocides/victims-of-nazi-persecution



© Amgueddfa Hil-laddiad Tuol Sleng

Hil-laddiad yn Cambodia 1975 - 1979

‘Mae’n anodd dweud yr hanes wrthyhch gan ei fod yn dod â’r holl deimladau o ddinerthedd yn ôl... mae angen i bobl wybod er mwyn osgoi hil-laddiad eto.’

Var Hong Ashe, goroeswr yr Hil-laddiad yn Cambodia

Syfrdanwyd y byd gan ffawd Cambodia pan ddaeth y Comiwnyddion radical, y Khmer Rouge, i bŵer yn 1975.

Mewn ymdrech i greu 'blwyddyn sero', ceision nhw wagu'r dinasoedd o'u pobl, gan orfodi dynion, merched a phlant i gefn gwlad i weithio ar ffermydd cyfunol. Cafodd y rhai a ystyriwyd yn fygythiad i'r dosbarth newydd hwn o werin bobl – gan gynnwys meddygon, cyfreithwyr, athrawon a hyd yn oed pobl oedd yn gwisgo sbectol – eu llofruddio. Cymerwyd plant oddi ar eu rhieni a saethwyd pobl am wrando ar radio neu hyd yn oed wylo neu chwerthin.

Dywedodd un slogan Khmer 'nid oes elw i'ch arbed; nid yw eich dinistrio'n gollod'. Roedd newyn ac erledigaeth yn eang a lladdwyd tua dwy filiwn o bobl yn ystod teyrnasiad y Khmer Rouge.

Rhago o wybodaeth: **hmd.org.uk/genocides/cambodia**



Hil-laddiad yn Rwanda 1994

‘Lladdwyd fy mrawd mawr, fy mrawd bach, fy chwaer a fy nhad a’ m mam ganddynt. Fy nheulu cyfan. Ac o amgylch fy nheulu; fy ewythrod, fy nghefnodryd...llawer, llawer iawn, alla i ddim dweud wrthy ch faint.’

Apolinaire Kageruka, goroeswr Hil-laddiad Rwanda

Mewn 100 diwrnod yn 1994 llofruddiwyd bron i un filiwn o Twtsis a Hwtws cymedrol yn Rwanda.

Ar ôl blynyddoedd o erledigaeth a gwahaniaethu yn erbyn Twtsis, cyhuddodd arweinwyr yr Hwtw y Twtsis o ladd yr Arlywydd trwy saethu ei awyren i lawr ar 6 Ebrill 1994. Ceisiodd yr arweinwyr ddial ac anogwyd dinasyddion Hwtw i fynd i'r strydoedd a llofruddio Twtsis. Cyflawnwyd yr hil-laddiad yn bennaf â llaw a chefnogwyd y sgwadiau lladd – yr *Interahamwe* – gan y wladwriaeth, gan gynnwys gwleidyddion lleol a roddodd leoliadau addas i'r llofruddio ddigwydd.

Lladdwyd miloedd o Twtsis wrth iddynt geisio lloches mewn ysgolion ac eglwysi. Yn aml, yn eu munudau olaf wynebwyd y dioddefwyr gan y ffaith fod eu lladdwyr yn gyn-gymdogion a chyfeillion.

Gwylodd y Gymuned Ryngwladol wrth i'r sawl oedd yno ddatgan ei fod yn hil-laddiad – y tro cyntaf i'r confensiwn gael ei alw i rym oddi ar Ddatganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol 1948.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/genocides/rwanda



Eirch yn barod i'w claddu ym mhentref
Potocari © Tarik Samara

Hil-laddiad ym Mosnia 1995

‘Mae bywyd am yr hyn y gallwn ei wneud... p’un a ydym
yn gwneud rhywbeth er mwyn ein cymuned neu er mwyn
rhywbeth mwy. Ni sy’n gwneud y byd fel y mae.’

Kemal Pervanic, goroeswr yr Hil-laddiad ym Mosnia

Yn y cythrwfl yn dilyn ymddatodiad Iwgoslafia yn 1992, cyhoeddodd Bosnia annibyniaeth o 'Serbia Fwyaf'. Mewn ymdrech i dra-arglwyddiaethu'n wleidyddol, dechreuodd awdurdodau Serbaidd Bosnia ynysu grwpiau ethnig, ac mewn rhai achosion, eu difodi.

Sefydlwyd gwersylloedd crynhoi a chadwyd dynion a bechgyn Mwslimaidd dan orfodaeth. Ym mis Gorffennaf 1995, yn dilyn alltudiaeth orfodol merched, plant dan 13 a'r henoed o Srebrenica, llofruddiwyd dros 7,500 o ddynion a bechgyn Mwslimaidd mewn caeau, storfeydd a meysydd chwarae. Claddwyd eu cyrff mewn beddi torfol ac ni fu'n bosibl adnabod llawer ohonynt.

Y lladdfa yn Srebrenica yw'r llofruddiaeth torfol unigol mwyaf yn Ewrop oddi ar yr Holocost ac Erledigaeth y Naziïd.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/genocides/bosnia



Ffoaduriaid yn Menawashi, Darfur

© Brian Steidle

Hil-laddiad yn ein hoes ni: Darfur

'Rwy' yma, ond rwy'n dal i deimlo fy mod i yno... Rwy'n teimlo fy mod i gyda nhw yn Darfur gan fod fy nheulu cyfan yno. Dwi ddim am gael llawer o broblemau yn fy mhentref nac yn fy Darfur. Dwi ddim am gael rhyfel a dwi ddim am gael saethu.'

Hawa, goroeswr yr Hil-laddiad yn Darfur

Yn erbyn cefndir rhyfel cartref, rhwng 2003 a 2005 bu hillyddiad yn Darfur, Y Swdan. Dinistriodd milisia a gefnogwyd gan y llywodraeth, y *Janjaweed*, eiddo, cartrefi a chymunedau. Defnyddiwyd trais yn ddiwahân a llofruddiwyd tua 400,000 o ddynion, merched a phlant. Mae hyd at 2.5 miliwn yn dal i ddibynnu ar gymorth rhyngwladol heddiw, ac ni allant symud yn ôl i'w cymunedau gan aros mewn gwerysloedd dros dro yn Darfur neu Chad. Mae Cenhadaeth yr Undeb Affricanaidd a'r Cenhedloedd Unedig Yn Darfur (UNAMID) yn dal i fod yn yr ardal ar ôl adnewyddu eu mandad eto ar 31 Gorffennaf 2012. Eu nod yw gwarchod gweithwyr cymorth a chefnogi'r gwaith o weithredu Cytundeb Heddwch Darfur.

Er gwaethaf annibyniaeth De Swdan ym mis Gorffennaf 2011, mae gwrthdaro pellach wedi digwydd yn ardaloedd ger Mynyddoedd y Nwba. Cyflwynwyd dwy ataliad (y diweddaraf yn 2010) gan y Llys Troseddol Rhyngwladol i arestio Al Bashir, Arlywydd y Swdan, fodd bynnag maent heb eu gweithredu o hyd.

Rhagor o wybodaeth: hmd.org.uk/genocides/darfur



© Llyfrgelloedd Dwyrain Swydd Dunbarton



© HMDT



© Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot C.C.



© Lynn News



© Andy Billington



© Cyngor Sir Leeds



© Ysgol Greal Torrington



© Latest Magazines



© Ysgol Uwchradd Darland

Diwrnod Cofio'r Holocaust drwy'r DU

O Gaerwysg i Aberdeen, o Belfast i Brighton, caiff Diwrnod Cofio'r Holocaust – 27 Ionawr – ei nodi gan filoedd o bobl sy'n dod ynghyd mewn ysgolion, lleoedd gwaith a mannau cyhoeddus. Trwy aros gyda'i gilydd i fyfyrio ar ddigwyddiadau erchyll y gorffennol, gall y sawl sy'n nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust (DCH) ymrwymo i greu gwell dyfodol.

O oleuo canhwyllau a theithiau cerdded heddwch i blannu coed a chyfansoddi barddoniaeth, mae digwyddiadau DCG yn cynnwys pob aelod o'r gymuned. Trwy gysylltiad ar-lein mae miloedd ychwanegol yn helpu i sicrhau y bydd DCH a'i neges bwysig yn cyrraedd ein hymwybyddiaeth cyfunol.

Os yw'r digwyddiadau'n fawr neu'n fach, yn gyhoeddus neu'n breifat, ar-lein neu wyneb-yn-wyneb, mae pob un ohonynt yn chwarae rôl hanfodol yn y DU i nodi Diwrnod Cofio'r Holocaust. Ar 27 Ionawr gallwch ganfod sut i chwarae eich rhan mewn dysgu gwersi o'r gorffennol er mwyn creu dyfodol gwell a mwy diogel i bawb.

Gallwch ganfod drosodd sut i gymryd rhan.

Mae HMDT yn elusen sy'n gweithio i godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Cofio'r Holocaust. Rydym yn gweithio ar draws y DU i annog ac ysbrydoli unigolion a sefydliadau i chwarae rhan yn y gwaith o greu dyfodol gwell a mwy diogel.

I ganfod mwy am beth y gallwch ei wneud, ewch i hmd.org.uk

PO Box 61074, London, SE1P 5BX

020 7785 7029

 [hmd_uk](https://twitter.com/hmd_uk)

 [/hmd.uk](https://www.facebook.com/hmd.uk)



Rhif elusen: 1109348